Ian Bellingham
Hosbis Sant Kentigern
Ffordd Dinbych Uchaf
Llanelwy
Sir Ddinbych
LL17 0RS

Llinell Uniongyrchol: 0300 062 8163
Ffacs: 0300 062 8387
E-bost: HIWInspections@wales.gsi.gov.uk

Mr Bellingham,

**Parthed: Ymweliad dirybudd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru â Hosbis Sant Kentigern ar 14 Mai 2014**

Fel y gwyddoch, cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ymweliad dirybudd â Hosbis Sant Kentigern ar 14 Mai 2014.

**Cefndir**

Canolbwyntiodd yr Arolygiad yn bennaf ar archwilio cofnodion cleifion, trafodaethau gydag aelodau staff a chleifion, adolygu amrywiaeth o ddogfennau, arsylwi rhyngweithiadau rhwng aelodau staff ac aelodau staff a chleifion ac arsylwi'r amgylchedd, y cyfleusterau a'r offer.

**Golwg Gyffredinol ar y Lleoliad Gofal Iechyd**

Hosbis sy'n darparu gofal seibiant a lliniarol i oedolion sy'n dioddef o gyflyrau sy'n cyfyngu eu bywydau. Fe'i hadeiladwyd yn bwrpasol ac mae wedi ei leoli yng ngerddi cyn-ysbyty HMS Stanley. Mae'n darparu gofal cleifion mewnol a dydd a rheolir y rhain ar wahân ond maent wedi eu cysylltu gan goridor.

Rheolir yr hosbis mewn ffordd ddemocrataidd ac agored a cheir gweithdrefnau archwilio eglur ar waith sy'n asesu'r gofal a'r ddarpariaeth o fewn yr hosbis ac yn erbyn sefydliadau gofal seibiant a lliniarol eraill. Roedd yr awyrgylch yn gadarnhaol iawn ac roedd yn eglur bod aelodau staff yn cael eu hannog i ddatblygu gofal ac yn mwynhau gweithio yno. Roedd y gofal cyffredinol yn bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol a'r nod oedd sicrhau bod gofal yn gwella'n barhaus. Mae'r driniaeth a ddarperir yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac roedd asesiadau o anghenion yn drylwyr ac yn seiliedig ar dystiolaeth gydnabyddedig. Mae'r ddarpariaeth o ofal lliniarol yn seiliedig ar Safonau Cymru Gyfan ac roedd yr aelodau staff yn ymwybodol o'r rhain.

**Ansawdd y Driniaeth a'r Gofal**

**Gofal sy'n Canolbwyntio ar y Claf**

Mae'r gofal yn canolbwyntio ar y claf, yn seiliedig ar dystiolaeth ac o safon uchel. Fe'n hysbyswyd bod systemau monitro ac archwilio ar waith ond ni welwyd unrhyw dystiolaeth o'r rhain ar ddiwrnod yr arolygiad. Penderfynir ar ofal yn ôl angen y claf unigol ac mae asesiadau a dogfennau'n ymwneud â chleifion yn helaeth ac yn barhaus. Caiff triniaethau clinigol eu hesbonio i gleifion fel eu bod yn deall goblygiadau'r driniaeth, gan gynnwys y risgiau a'r sgil-effeithiau posibl, ac unrhyw opsiynau sydd ar gael iddynt.

Mae cleifion yn cael eu cynnwys yn llawn yn y broses o wneud penderfyniadau am eu gofal. Mae cleifion yn cael cymaint o ddewis ag y gellir ei roi iddynt ac roedd yn ymddangos bod yr aelodau staff yn ystyriol o hawliau cleifion i breifatrwydd, urddas ac annibyniaeth fel roedd eu cyflwr yn ei ganiatáu.

Roedd cynlluniau gofal ar waith yn seiliedig ar adolygiad parhaus eglur o gyflwr y claf a welwyd drwy'r dogfennau. Cadarnhaodd y dogfennau cleifion a welwyd yn yr arolygiad bod meddygon, nyrsys, ffisiotherapyddion a therapyddion galwedigaethol yn cymryd rhan yng ngofal unigolion. Caiff yr holl ofal ei adolygu a'i gofnodi'n feunyddiol.

Gall cleifion gael mynediad at eu cofnodion ac roeddent yn ymwybodol o hyn. Ceir prosesau atgyfeirio eglur ac mae'r hosbis hefyd yn gweithio'n agos gyda'r gwasanaethau cymunedol ac asiantaethau eraill e.e. Marie Curie, Macmillan.

Arweinir yr hosbis gan nyrsys gyda rowndiau ward meddygol rheolaidd a thrafodir gofal y cleifion gyda'r cleifion a pherthnasau os yw'r cleifion yn dymuno. Nid yw'r hosbis yn darparu gwasanaethau gofal lliniarol i blant. Fodd bynnag, mae plant yn ymweld â'r hosbis i weld teulu a darperir cefnogaeth profedigaeth iddynt gan gwnselydd hyfforddedig. Fe'u hysbyswyd y dylid adolygu hyfforddiant Amddiffyn Plant sy'n Agored i Niwed.

Arweinir y ganolfan ddydd gan Therapi Galwedigaethol a thîm amlddisgyblaeth yn gweithio ar y cyd i ddarparu asesiadau, gofal a thriniaeth o ansawdd uchel i'w grŵp cleifion. Mae'r asesiadau'n fanwl ac yn gynhwysfawr ac yn cynnwys yr hyn mae cleifion yn ei hoffi ac nad ydynt yn ei hoffi, eu diddordebau, eu trefn feunyddiol, anghenion dietegol, cyfathrebu a symudedd, ac anghenion cefnogaeth gwybyddiaeth, gallu a seicolegol. Ar ôl asesu, gellir gwneud atgyfeiriadau at amrywiaeth o weithwyr proffesiynol, ar gyfer therapi neu ymyriadau eraill ac maent yn cynnwys seicoleg, ffisiotherapi, aromatherapi ac mae gweithiwr cymdeithasol ar gael ddau ddiwrnod yr wythnos hefyd. Caiff cynlluniau triniaeth eu datblygu a'u hadolygu'n rheolaidd gan y tîm.



Healthcare Inspectorate Wales • Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Welsh Government • Llywodraeth Cymru
Rhydycar Business Park • Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tydfil • Merthyr Tudful
CF48 1UZ
Tel • Ffôn 0300 062 8163
Fax • Ffacs 0300 062 8387
www.hiw.org.uk

Mae gan y ganolfan ddydd ganolbwynt neu thema bob diwrnod, sy'n cynnwys iechyd corfforol a symudedd, rheoli gorbryder, cymdeithasol, rheoli blinder a chefnogaeth seicolegol, er y gall cleifion ddod ar unrhyw adeg i gael cefnogaeth gyffredinol neu ymyriadau therapiwtig. Gall cleifion gymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau o'u dewis, neu fwynhau cwmni a chefnogaeth yr aelodau staff a chleifion eraill.

**Asesu Anghenion Cleifion a Gofalwyr**

Caiff asesiadau eu cynnal a'u diweddaru gan holl aelodau'r tîm amlddisgyblaeth. Mae cynlluniau gofal ar waith yn seiliedig ar dystiolaeth ac adolygiad parhaus eglur o gyflwr y claf a welwyd drwy'r dogfennau.

**Trefniadau ar gyfer Gofal**

Mae'r wybodaeth a ddarperir i gleifion, teuluoedd a gofalwyr yn eglur ac yn gwbl hygyrch. Datgelodd trafodaethau gydag aelodau staff bod cleifion a'u teuluoedd yn cymryd rhan lawn yn y broses o wneud penderfyniadau am eu gofal.

**Cofnodion Gofal**

Mae cleifion a theuluoedd yn cymryd rhan yn y broses o benderfynu ar eu gofal a chyflawnir arfer yn seiliedig ar dystiolaeth a chaiff yr holl wybodaeth ei chofnodi'n feunyddiol. Mae gweithdrefnau diogelu data ar waith yn unol â deddfwriaeth yn ymwneud â chyfrinachedd.

**Y Ddarpariaeth o Ofal Lliniarol a Gofal am y Rhai sy'n Marw**

Mae'r hosbis yn dilyn arfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac mae'r aelodau staff wedi eu haddysgu'n briodol i ddarparu hyn. Mae llwybr gofal yr hosbis ar gyfer y diwrnodau olaf o fywyd yn llywio arfer ac yn cofnodi dymuniadau cleifion. Ymarferwyr nyrsio uwch â hyfforddiant priodol neu aelodau staff meddygol rhoi moddion lleddfu poen ar bresgripsiwn, ac maent yn cael eu monitro a'u hadolygu'n rheolaidd.

Roedd nifer yr aelodau staff a'r gymysgedd sgiliau yn briodol i ddiwallu anghenion y cleifion a'u teuluoedd. Darparwyd gofal terfynol cleifion a'u teuluoedd gyda chydymdeimlad, gofal a thosturi, sy'n cynnig cysur, cryfder a chefnogaeth. Mae gwirfoddolwyr yn cefnogi'r hosbis, gan ddarparu gwasanaeth gwerthfawr sy'n cael ei werthfawrogi mewn sawl ffodd ac yn cyflawni llawer o swyddogaethau gan gynnwys; dyletswyddau clerigol a gweinyddol, gofalwyr yn yr ysbyty dydd a'r uned gleifion, therapyddion cyflenwol, derbynyddion gyrwyr, cwnselwyr profedigaeth, therapyddion celf a garddwyr.

Mae polisïau/gweithdrefnau ar waith o ran arosiadau dros nos i berthnasau, ond nid ar gyfer y camau i'w cymryd ar yr adeg marwolaeth, a swyddogaethau olaf gan fod


Healthcare Inspectorate Wales • Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Welsh Government • Llywodraeth Cymru
Rhydycar Business Park • Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tydfil • Merthyr Tudful
CF48 1UZ
Tel • Ffôn 0300 062 8163
Fax • Ffacs 0300 062 8387
www.hiw.org.uk

angen adolygu'r polisïau hyn. Mae trefniadau ar waith ar gyfer eiriolaeth, cwnsela profedigaeth a gofal bugeiliol.

**Safbwyntiau Cleifion**

Dywedodd nifer o gleifion wrth ein hadolygwyr bod y gofal roeddent wedi ei dderbyn o safon ragorol. Roeddent o'r farn bod y tîm yn dosturiol, yn ofalgar ac yn rhoi sylw mawr i'w hanghenion a dywedasant fod aelodau staff yn gynorthwyol, yn garedig ac yn "angylion ar y ddaear".

Dywedodd un claf na ellid gwella unrhyw beth ac roedd yn credu bod y profiad o ddod i'r gwasanaeth dydd bob wythnos wedi ei helpu hi a'i theulu'n enfawr. Roedd yn gallu gwneud rhywfaint o arddio, cael trin ei gwallt a'i hewinedd a sgwrsio gyda chleifion eraill mewn amgylchiadau tebyg, a oedd yn gefnogaeth fawr iddi. Mae tylino'r corff aromatherapi hefyd ar gael ac mae'r profiad wedi helpu synnwyr o les y cleifion bob wythnos yn gyffredinol.

Dywedodd claf arall bod ei theulu'n gallu dod i'r hosbis ac ymuno â hi ar gyfer prydau bwyd a derbyn therapïau cyflenwol a'u bod hefyd yn cael llawer iawn o gefnogaeth gan aelodau staff, gwirfoddolwyr a theuluoedd eraill.

Dywedodd claf a oedd wedi bod yn dod i'r hosbis yn rheolaidd am ofal seibiant bod aelodau staff yn rhoi llawer o sylw, yn ei thrin gyda pharch a bod ei hurddas hi a phawb arall yn cael ei barchu bob amser. Dywedodd ei bod yn teimlo bod pobl "yn gwrando arni" a bod y gefnogaeth iddi ei derbyn yn Sant Kentigern wedi gwneud gwahaniaeth mawr i'r ffordd roedd yn ymdopi â'i salwch. Roedd yn teimlo'n fwy cadarnhaol ac yn gallu mwynhau agweddau ar ei bywyd eto gyda thawelwch meddwl llwyr.

Dywedodd y cleifion y gallent ddefnyddio clychau galw eu hystafelloedd ar unrhyw adeg ac y byddai aelodau staff yn dod ar unwaith. Byddai aelodau staff bob amser yn cnocio a cheir ail len wrth ddod i mewn i'r ystafell i gynyddu eu preifatrwydd ymhellach. Dywedodd yr holl gleifion a'r aelodau teulu y siaradwyd â nhw bod y cymorth i deuluoedd yn rhagorol. Dywedodd un claf mai'r unig welliant i'w wneud fyddai cael ystafell deuluol lle gall perthnasau aros dros nos weithiau.

Dywedodd un claf bod ganddo brofiad helaeth fel cogydd am ddau ddegawd a'i fod yn credu bod y bwyd yn Sant Kentigern o'r radd flaenaf. Disgrifiodd claf arall Sant Kentigern fel "paradwys", roedd yr aelodau staff yn ardderchog ac roedd gallu dod i Sant Kentigern yn ateb i'w weddïau.



Healthcare Inspectorate Wales • Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Welsh Government • Llywodraeth Cymru
Rhydycar Business Park • Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tydfil • Merthyr Tudful
CF48 1UZ
Tel • Ffôn 0300 062 8163
Fax • Ffacs 0300 062 8387
www.hiw.org.uk

Ceir gweithiwr cymorth i deuluoedd ac mae cefnogaeth profedigaeth hefyd yn cael ei wneud ar gael i gleifion a'u teuluoedd gan gwnselwyr hyfforddedig. Roedd nifer fawr o gardiau diolch gan gleifion a'u teuluoedd o gwmpas yr hosbis.

**Preifatrwydd ac Urddas**

Roedd yr holl aelodau staff yn ystyriol o barchu preifatrwydd ac urddas y cleifion, sy'n amlwg yn sail i ethos hosbis Sant Kentigern. Dywedodd un claf yr ystyrir mai eu rhai nhw yw'r ystafelloedd gwely yn ystod eu harhosiad. Mae aelodau staff yn cnocio'r drws ac nid ydynt yn mynd i mewn tan iddynt gael ateb ac mae'r holl gleifion yn cael eu trin gydag urddas a pharch bob amser. Ceir ail sgrin breifatrwydd y tu mewn i ystafelloedd y cleifion, fel nad yw aelodau staff yn cerdded yn syth i mewn i ystafell y claf.

**Cyfrinachedd Cleifion**

O arsylwi a thrafod, mae'n amlwg bod cyfrinachedd cleifion yn rhan annatod o ofal cleifion ac arfer proffesiynol. Darperir preifatrwydd, urddas a chyfrinachedd yn ystod trafodaethau neu archwiliadau mewn ystafelloedd gwely preifat, neu drwy ddefnyddio ystafelloedd ymgynghori, ystafelloedd clinigol ac ystafelloedd eistedd yn unol â dewis y claf a'i berthnasau.

**Adborth cleifion a chwynion**

Rhoddir cyfleoedd i gleifion a gofalwyr roi adborth, a chaiff gwybodaeth am gwynion ei chyfrannu at y broses adolygu sy'n barhaus hefyd. Mae systemau eglur ar waith ar gyfer rheoli cwynion, ond canfuwyd bod angen adolygu'r polisi ar gyfer cwynion.

Mae Datganiad o Ddiben a Chanllaw Cleifion yr hosbis yn cynnwys gwybodaeth am gwynion. Cedwir cofnodion o gwynion yn Hosbis Sant Kentigern ac fe'u harchwilir yn rheolaidd. Cymerir camau ar sail y canlyniadau. Caiff cwynion eu trin yn gadarnhaol er mwyn gwella'r gofal a darpariaeth y gwasanaeth.

**Cyfathrebu a Gwybodaeth**

Mae llawer iawn o wybodaeth gyfredol a defnyddiol ar gael i gleifion a'u teuluoedd. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd ac anogir aelodau staff i nodi eitemau agenda cyn y cyfarfodydd.

Rhennir gwybodaeth o gyfarfodydd llywodraethu clinigol a chyfarfodydd eraill ac ystyriwyd bod yr holl Reolwyr staff yn hawdd mynd atynt ac yn hyrwyddo polisi "drws agored". Ceir proses gwynion ac mae gwybodaeth am sut i wneud cwyn ar gael i gleifion a'u teuluoedd. Darperir arolygon bodlonrwydd cleifion i'r cleifion a chymerir camau yn eu sgil pan fo hynny'n berthnasol ac yn bosibl.



Healthcare Inspectorate Wales • Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Welsh Government • Llywodraeth Cymru
Rhydycar Business Park • Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tydfil • Merthyr Tudful
CF48 1UZ
Tel • Ffôn 0300 062 8163
Fax • Ffacs 0300 062 8387
www.hiw.org.uk

**Rheolwyr a Phersonél**

Ceir strwythur sefydliadol a rheoli eglur ar gyfer Sant Kentigern. Mae gan reolwr yr hosbis sgiliau a phrofiad priodol i sicrhau gofal boddhaol. Mae gan aelodau staff eraill sy'n gweithio yn yr hosbis gymwysterau priodol hefyd. Ceir cymysgedd o ddisgyblaethau staff yn yr hosbis. Mae gan Brif Nyrs glinigol yr hosbis gymwysterau a phrofiad priodol i sicrhau gofal boddhaol i'r cleifion.

Mae gan holl aelodau'r staff gymwysterau a hyfforddiant perthnasol i gyflawni eu swyddogaethau. Mae aelodau'r staff nyrsio yn cynnal eu harfer yn unol â'u corff cofrestru - y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Mae angen adolygu'r system flynyddol ar gyfer sicrhau bod yr holl aelodau staff cofrestredig yn dal i fod ar y gofrestr ac nid oedd aelodau'r tîm arolygu yn gallu darganfod a oedd yr holl aelodau staff perthnasol wedi eu cofrestru, er i ni gael ein hysbysu eu bod.

Roedd rhestr ddyletswydd y ward yn nodi bod nifer a chymysgedd sgiliau'r aelodau staff ar bob shifft dros gyfnod o 24 awr yn briodol i nifer ac anghenion y cleifion mewnol ar adeg yr arolygiad.

Mae systemau ar waith i sicrhau bod cymwysterau proffesiynol holl aelodau'r staff yn gyfredol. Hysbyswyd y tîm arolygu bod system barhaus o addysg a datblygiad proffesiynol i bob aelod o staff. Fodd bynnag, nid oeddem yn gallu gweld tystiolaeth o hyn gan fod angen diweddaru'r gronfa ddata.

Ceir system ar gyfer goruchwyliaeth glinigol grŵp ac unigol i aelodau staff. Disgwylir i aelodau staff fod yn ymwybodol o arfer clinigol a phroffesiynol cyfredol a'r polisïau a'r gweithdrefnau a ddefnyddir yn yr hosbis. Mae angen datblygu cronfeydd data canolog sy'n dynodi bod aelodau staff wedi darllen a deall polisïau Sant Kentigern, ar gyfer gofynion addysg a hyfforddiant gorfodol ac ar gyfer archwiliadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a gwirio cofrestriadau proffesiynol.

**Arweinyddiaeth Glinigol a Gwaith Tîm**

Arsylwyd bod holl aelodau'r staff yn broffesiynol, yn ofalgar ac yn dosturiol ar ddiwrnod yr Arolygiad, a bod eu rhyngweithiadau gyda chleifion a'u teuluoedd yn barchus, yn wresog ac yn gyfeillgar a bod eu dull o ddarparu gofal yn gadarnhaol ac yn llawn cymhelliad. Roedd yr aelodau staff yn llawn egni ac yn frwdfrydig am eu gwaith a'u cleifion ac yn gwneud pob ymdrech i wella darpariaeth y gwasanaeth yn barhaus. Dywedodd un aelod o staff "Roedd Sant Kentigern yn lle anhygoel i weithio ynddo ac roedd gweithio yno'n anrhydedd".

Roedd tystiolaeth o arweinyddiaeth glinigol gref a llawn ysbrydoliaeth a gwaith tîm amlddisgyblaeth effeithiol. Roedd yr aelodau staff y siaradwyd â nhw yn teimlo wedi eu hymrymuso yn eu dull o ddarparu gofal i gleifion ac fe'u hanogir i ystyried ffyrdd o wella ansawdd y gofal a'r gwasanaeth yn barhaol. Ystyrir yn bendant bod tîm o



Healthcare Inspectorate Wales • Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Welsh Government • Llywodraeth Cymru
Rhydycar Business Park • Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tydfil • Merthyr Tudful
CF48 1UZ
Tel • Ffôn 0300 062 8163
Fax • Ffacs 0300 062 8387
www.hiw.org.uk

wirfoddolwyr yn rhan o'r tîm a'u bod yn darparu gwasanaeth rhagorol. Dywedodd aelodau staff a chleifion eu bod yn hynod werthfawr.

**Adnoddau Dynol**

Mae rhai polisïau a gweithdrefnau personél ar waith ond ceir gofyniad i adolygu a diweddaru eraill fel yr amlinellir isod. Gwelwyd sampl gynrychiadol o gofnodion personél aelodau staff a chanfuwyd bod ffotograffau aelodau staff, tystiolaeth o archwiliad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, gwerthusiadau a chofrestriad proffesiynol ar goll.

Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith o ran (chwythu'r chwiban) er mwyn i aelodau staff fod yn gyfforddus â hysbysu aelodau staff uwch am bryderon am arferion gofal gwael. Mae gwybodaeth am godi pryderon wedi ei chynnwys yn y llawlyfr staff.

Mae angen diweddaru'r polisi a'r weithdrefn Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed. Mae'r cofnodion yn dangos bod hyfforddiant Amddiffyn Oedolion wedi cael ei ddarparu.

**Llywodraethu Clinigol**

Mae trefniadau llywodraethu clinigol ar waith ac adolygwyd ac ailstrwythurwyd y rhain yn ddiweddar ar ôl diffyg cyfarfodydd rheolaidd. Llwyddodd aelodau'r tîm arolygu i weld cofnodion cyfarfodydd diweddar a oedd yn dangos tystiolaeth o drafodaethau a chynlluniau gweithredu i wella a monitro ansawdd y gofal. Bydd y fframwaith llywodraethu clinigol newydd yn sicrhau bod ansawdd yn cael ei gynnal, er bod angen rhoi sylw i agweddau addysg a hyfforddiant a rheoli risg y fframwaith hwn ar hyn o bryd, fel yr amlinellir isod.

**Polisïau a Gweithdrefnau**

Mae rhai polisïau a gweithdrefnau priodol ar waith i gynorthwyo aelodau staff gyda'r ddarpariaeth o ofal ond, yn anffodus, ceir nifer o bolisïau a gweithdrefnau y mae angen eu diweddaru ac amlinellir y rhain isod.

**Archebu, Storio, Defnyddio a Chael Gwared ar Feddyginiaethau**

Roedd yr holl feddyginiaethau wedi eu storio'n briodol yn unol â'r ddeddfwriaeth. Ceir siartiau presgripsiwn eglur. Cedwir cofnodion o'r holl feddyginiaethau a dderbynnir ac o'r rhai y cafwyd gwared arnynt neu a ddychwelwyd i'r teulu ar ddiwedd arhosiad y claf.

Mae trefniadau storio yn dda a cheir ystafell benodol â chypyrddau at y diben hwn. Ceir cypyrddau â chloeon yn ystafell pob claf ar gyfer ei feddyginiaethau unigol.




Healthcare Inspectorate Wales • Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Welsh Government • Llywodraeth Cymru
Rhydycar Business Park • Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tydfil • Merthyr Tudful
CF48 1UZ
Tel • Ffôn 0300 062 8163
Fax • Ffacs 0300 062 8387
www.hiw.org.uk

Fodd bynnag, nid yw'r rhain yn cael eu defnyddio gan fod yn well gan y cleifion i aelodau staff ddosbarthu eu meddyginiaeth, er bod yna bolisi hunanfeddyginiaeth.

Caiff cyffuriau a reolir eu storio a'u trafod yn unol â'r ddeddf camddefnyddio cyffuriau a'i rheoliadau. Ceir rhai cyfleusterau i aelodau staff gael gafael ar wybodaeth am feddyginiaethau ond dim rhaglen addysgol barhaus ac argymhellwyd y dylai'r holl aelodau staff sy'n ymwneud â rhoi meddyginiaeth dderbyn hyfforddiant yn ystod y flwyddyn nesaf. Dangosodd adolygiad o gofnodion cyffuriau a reolir bod y rhain yn cael eu rheoli'n briodol.

**Storio a Chyflenwi Nwyon Meddygol**

Ceir man storio nwyon meddygol ond canfuwyd bod hwn yn llawn matresi ac offer nad yw'n cael ei ddefnyddio mwyach, sy'n achosi perygl tân. Cafodd hyn ei ddatrys ar adeg yr ymweliad trwy gael gwared ar y silindrau ocsigen i ardal benodol lai gyferbyn â'r orsaf nyrsys. Yn allanol, mae angen gwella'r trefniadau ar gyfer storio silindrau nwy meddygol bach trwy ddarparu rheseli addas.

Nid oes unrhyw bolisi nwyon meddygol ac mae angen un.

**Rheoli Risg**

Yn glinigol, ceir systemau ar waith i leihau risgiau i aelodau staff a chleifion, fel polisïau symud a thrafod ac addysg a hyfforddiant ar y defnydd o ddyfeisiau mewnwythiennol. Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau yn yr hosbis yn cydnabod ac yn cymryd i ystyriaeth arfer da a gofynion a chyfreithiau iechyd a diogelwch. Anfonir hysbysiadau am beryglon i'r rheolwr ac yna fe'u dosberthir i holl aelodau'r staff trwy broses ffurfiol.

**Iechyd a Diogelwch**

Mae polisïau/gweithdrefnau Iechyd a Diogelwch ar waith. Dosberthir gwybodaeth i'r holl aelodau staff yn y sefydliad. Caiff taflenni Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) eu hadolygu a'u diweddaru'n barhaus ac fe'u cedwir ym mhob adran.

Cedwir cofnod o ddamweiniau cleifion/ymwelwyr/aelodau staff, cedwir cofnodion yn ddiogel ac fe'u harchwilir i ddadansoddi tueddiadau. Bodlonir gofynion o ran Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus (RIDDOR). Mae polisi cyfathrebu ar waith o ran cyfrifoldebau am hysbysu AGIC am ddigwyddiadau difrifol.

**Rheoli Heintiau**



Healthcare Inspectorate Wales • Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Welsh Government • Llywodraeth Cymru
Rhydycar Business Park • Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tydfil • Merthyr Tudful
CF48 1UZ
Tel • Ffôn 0300 062 8163
Fax • Ffacs 0300 062 8387
www.hiw.org.uk

Mae polisïau/gweithdrefnau ar waith o ran systemau ar gyfer prosesau dadhalogi, iechyd a diogelwch a rheoli heintiau. Mae rhai polisïau a gweithdrefnau priodol ar waith i leihau heintiau ond mae angen adolygu eraill a thrafodwyd hyn ar adeg yr ymweliad.

Ceir offer ac addysg briodol i aelodau staff. Argymhellwyd bod archwiliadau rheoli heintiau rheolaidd yn cael eu cynnal. Roedd y systemau lle golchi a golchi dillad yn anfoddhaol gan fod y rhain yn yr un ystafell ag eitemau budr a glân yn agos at ei gilydd, gan greu perygl o ran rheoli heintiau. Hefyd, ar adeg yr ymweliad, roedd y peiriant golchi padellau gwely wedi torri a disgwyliwyd un newydd o fewn 6 wythnos. Yn y cyfamser, roedd padellau gwely'n cael eu golchi â llaw yng nghynhwysydd y lle golchi. Mae'r sefyllfa hon yn peri risg rheoli heintiau arwyddocaol a thrafodwyd hyn gyda rheolwyr yr hosbis ar adeg yr ymweliad. Cymerwyd camau gan yr uwch dîm rheoli ar ddiwrnod yr ymweliad. Anfonwyd cadarnhad o'r camau a gymerwyd i AGIC ar 15 Mai 2014.

**Hyfforddiant Tân Aelodau Staff**

Roedd Asesiad Risgiau Tân cyfredol ar waith, ond roedd rhai agweddau anaddas yn ei gynnwys. Mae'n bwysig bod Asesiad Risgiau Tân yn cael ei gynhyrchu gan unigolyn â chymhwysedd technegol, ac yn cael ei adolygu'n rheolaidd. Ceir unigolyn enwebedig sy'n gyfrifol am ddiogelwch tân y safle. Mae aelodau staff wedi mynychu hyfforddiant tân.

**Rheoli Cofnodion**

Roedd yr holl gofnodion sy'n ofynnol dan ddeddfwriaeth ar gael a chedwir yr holl ddogfennau'n ddiogel yn unol ag egwyddorion y Ddeddf Diogelu Data. Dilynir yr holl ganllawiau diogelu data a Caldicott ac arsylwyd bod y broses o reoli gwybodaeth yn foddhaol. Roedd cofnodion cleifion yn eglur a chyfredol ac mae holl aelodau'r tîm amlddisgyblaeth yn defnyddio'r un system gofnodion.

Gall cleifion gael mynediad at eu cofnodion ac maent yn ymwybodol o hyn.

**Gwaith Ymchwil**

Ni cheir unrhyw bolisi gwaith ymchwil i sicrhau ymddygiad priodol ac y gwneir gwaith ymchwil gyda chaniatâd cleifion, ac mae hyn yn ofynnol.

**Safle, Amgylchedd, Cyfleusterau a Gwasanaethau**

Mae'r amgylchedd yn ddymunol iawn, yn lân ac wedi ei gynnal a'i gadw'n dda a gwneir pob ymdrech i'w wneud mor gartrefol, cyfforddus a hamddenol â phosibl.



Healthcare Inspectorate Wales • Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Welsh Government • Llywodraeth Cymru
Rhydycar Business Park • Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tydfil • Merthyr Tudful
CF48 1UZ
Tel • Ffôn 0300 062 8163
Fax • Ffacs 0300 062 8387
www.hiw.org.uk

Ceir nifer o fannau eistedd a bwyta cartrefol ac mae gan gleifion eu hystafelloedd gwely eu hunain. Fodd bynnag, nid oes ystafell deuluol lle gall teuluoedd cleifion aros dros nos. Ceir gardd ddymunol iawn sy'n cael ei chynnal a'i chadw'n dda gan wirfoddolwyr. Gwelyau sengl sydd ym mhob un o'r ystafelloedd gwely, a cheir cyfleusterau en-suite yn rhai o'r ystafelloedd. Ni archwiliwyd Ystafelloedd Gwely 3, 5, 6 a 7 gan fod pobl ynddynt. Archwiliwyd yr ystafelloedd gwely eraill a chanfuwyd eu bod wedi eu dodrefnu'n ddymunol, eu haddurno'n dda ac yn cynnwys gorchudd llawr hylan y gellir ei olchi.

Ceir cynllun dymunol i'r lolfa ddydd gan gynnwys eitemau dodrefnu meddal a dewis o gemau a llyfrau, os bydd eu hangen. Mae'r rheiddiaduron gwresogi wedi eu diogelu'n briodol, ond nid oedd y brif bibell dosbarthu gwres a'r falf reoli ar lefel isel wedi eu diogelu. Er eu bod yn glaear ar adeg yr arolygiad, mae'n bosibl iawn y gallai'r rhain fod yn uwch na thymheredd arwyneb diogel yn ystod y prif dymor gwresogi a dylid eu diogelu'n briodol neu roi blwch o'u hamgylch er diogelwch.

Mae'r ddarpariaeth o socedi trydanol yn gyfyngedig ar gyfer yr offer a ddarperir, ac roedd rhai socedi trydanol llusgo'n cael eu defnyddio. Yn Ystafell Wely 4, roedd y lid wedi ei chlymu o gwmpas olwyn y gwely ac argymhellwyd y dylid ei glynu wrth y wal er diogelwch.

Roedd yr arogl yn nhoiled yr ymwelwyr braidd yn ddrwg, gan nad oedd mecanwaith gorlifo'r ffan yn gweithio.

Gan fod cyn-adeilad bwyler yr ysbyty wedi cau, gosodwyd 2 uned fwyler annibynnol newydd yn yr adeilad. Roedd un o'r rhain yn dangos arwydd gwall ar adeg yr arolygiad.

Nid oedd llawer o'r wybodaeth profion archwilio offer ar gael yn yr hosbis, gan fod y gwaith hwn yn cael ei wneud yn unol â chytundeb lefel gwasanaeth gydag Ystadau BIPBC. Nodwyd y disgwyliwyd yr holl wybodaeth hon erbyn 23 Mai, a bydd arolygiad arall yn cael ei gynnal ar ôl y dyddiad hwnnw i adolygu'r wybodaeth.

Profwyd tymheredd dŵr poeth ar hap a chanfuwyd yn gyffredinol eu bod o fewn terfynau diogel, ac eithrio Ystafell Wely 8, lle cafwyd darlleniad o 50.8 gradd Celsius. Rhoddwyd nodyn o rybudd yn yr ystafell bellach. Hysbyswyd AGIC ar 15 Mai 2014.

**Gofynion newydd o'r arolygiad hwn:**

| **Cam Gofynnol** | **Rhif y Rheoliad** |
|---|---|



Healthcare Inspectorate Wales • Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Welsh Government • Llywodraeth Cymru
Rhydycar Business Park • Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tydfil • Merthyr Tudful
CF48 1UZ
Tel • Ffôn 0300 062 8163
Fax • Ffacs 0300 062 8387
www.hiw.org.uk

| **Cam Gofynnol** | **Rhif y Rheoliad** |
|---|---|
| Canfuwyd bod oes nifer o bolisïau wedi darfod a bod angen eu hadolygu. | Rheoliad 9 (1) (3) (4) |
| Canfuwyd bod oes y Polisi Presgripsiynu Anfeddygol wedi darfod a bod angen ei adolygu. | Rheoliad 9(m) a 15 (5) (a) (b) |
| Ni chanfuwyd y Polisi Amddiffyn Plant. | Rheoliad 16(1)(a)(b) |
| Canfuwyd bod oes nifer o Bolisïau Adnoddau Dynol wedi darfod a bod angen eu hadolygu. | Rheoliad 9(1)(e)(h) ac 20(3)(a)(b) ac 20(4) |
| Ni chanfuwyd polisi Nwyon Meddygol ac mae angen hyfforddiant nwyon meddygol ar gyfer personél allweddol | Rheoliad 9(1)(d) a 15 (5) (a) (b) |
| Mae angen gwelliannau i'r dull storio silindrau nwy meddygol yn ddiogel yn y tu allan. | Rheoliad 9(1)(d) |
| Ni chanfuwyd polisi Llywodraethu Clinigol. | Rheoliad 9(1)(o) a 19(1)(a)(b)(c)(d)(e) a 26(1)(a) |
| Ni chanfuwyd polisi golchi dillad. | Rheoliad 26(1)(a) |
| Ni chanfuwyd polisi cynnal a chadw. | Rheoliad 9(3)(a)(b)(c)(d) a 17 (1) |
| Ni chanfuwyd polisi Amddifadu o Ryddid. | Rheoliad 38(1) |
| Ni chanfuwyd polisi offer miniog ac nid oedd unrhyw dystiolaeth bod newidiadau diweddar i ddeddfwriaeth yn hyn o beth wedi cael eu mabwysiadu. | Rheoliad 9 (1)(e)(k) |
| Ni chanfuwyd polisi preifatrwydd ac urddas. | Rheoliad 18(1) (a)(b)<br>Rheoliad 18(2) (a)(b) |
| Ni chanfuwyd unrhyw gofnodion o hyfforddiant gorfodol i aelodau staff. | Rheoliad 9(m) a 15 (5) (a) (b) |




Healthcare Inspectorate Wales • Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Welsh Government • Llywodraeth Cymru
Rhydycar Business Park • Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tydfil • Merthyr Tudful
CF48 1UZ
Tel • Ffôn 0300 062 8163
Fax • Ffacs 0300 062 8387
www.hiw.org.uk

| Cam Gofynnol | Rhif y Rheoliad |
|---|---|
| Nid oedd unrhyw gofnodion bod gwerthusiadau staff wedi eu cynnal ers 2012. | Rheoliad 20(1)(a)(b) ac 20 (2) (a) (b) |
| Nid oedd arferion golchi dillad yn llwyddo i sicrhau arfer diogel i atal lledaeniad heintiau a diogelwch i aelodau staff a chleifion. | Rheoliad 20(1)(a)(b) ac 20 (2) (a) (b) |
| Dylai Asesiad Risgiau Tân ysgrifenedig gael ei baratoi gan unigolyn â chymhwysedd technegol. | Rheoliad 26(4)(f) |
| Nid oedd unrhyw archwiliadau rheoli heintiau parhaus na hyfforddiant parhaus yn cael eu cynnal. | Rheoliad 9 (1)(n)<br>H6(4) |
| Roedd angen adolygu polisïau rheoli heintiau. | Rheoliad 9 (1) (n) |
| Roedd angen adolygu'r polisi trallwyso gwaed. | Rheoliad 15 (6) |
| Roedd angen adolygu'r polisi Cwynion | Rheoliad 24 (1) |
| Roedd angen adolygu'r Polisi ar gyfer Glanhau, diheintio a sterileiddio. | Rheoliad 9 (1) (n) |
| Roedd gwybodaeth ar goll o ffeiliau staff. | Rheoliad 9 (1) (i) |
| Nid oedd system ar gyfer sicrhau bod aelodau staff wedi cael archwiliad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a bod ganddynt gofrestriad cyfredol. | Rheoliad 9 (1) (i) |
| Diogelu rhannau o'r bibell cylchredeg gwres sydd i'w gweld yn briodol. | Rheoliad 26(2)(a) |
| Adleoli lid drydanol sy'n llusgo er mwyn osgoi olwyn y gwely yn ystafell wely 4. Ei hadleoli i fan diogel ar y wal. | Rheoliad 26(2)(a) |



Healthcare Inspectorate Wales • Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Welsh Government • Llywodraeth Cymru
Rhydycar Business Park • Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tydfil • Merthyr Tudful
CF48 1UZ
Tel • Ffôn 0300 062 8163
Fax • Ffacs 0300 062 8387
www.hiw.org.uk


| Cam Gofynnol | Rhif y Rheoliad |
|---|---|
| Trwsio ffan ddiffygiol yn y Toiled Ymwelwyr. | Rheoliad 26(2)(a) |
| Sicrhau y rhoddir sylw i’r gwall ar un bwyler gwresogi. | Rheoliad 26(2)(b) |
| Casglu’r holl wybodaeth am archwiliadau offer nad oedd ar gael, i’w harchwilio yn y dyfodol. | Rheoliad 26(2)(b) |
| Addasu tymheredd y dŵr poeth yn ystafell wely 8 i lefel ddiogel. | Rheoliad 26(2)(a) |

| Argymhellion Arfer Da |
|---|
| Mae’n amlwg y byddai ystafell deuluol yn gwneud gwahaniaeth i gleifion a’u teuluoedd |

Hoffai Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ddiolch i’r aelodau staff am eu hamser a’u cydweithrediad yn ystod yr ymweliad.

Mae croeso i chi gysylltu â mi os ydych yn dymuno trafod cynnwys y llythyr hwn.

Yn gywir



**Phil Price**
Rheolwr Arolygu



Healthcare Inspectorate Wales • Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Welsh Government • Llywodraeth Cymru
Rhydycar Business Park • Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tydfil • Merthyr Tudful
CF48 1UZ
Tel • Ffôn 0300 062 8163
Fax • Ffacs 0300 062 8387
www.hiw.org.uk